

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae gan wasanaethau cymdeithasol Merthyr Tudful gryfderau mewn nifer o feysydd. Mae'r awdurdod yn canolbwyntio ar gefnogi ei ddinasyddion i'w helpu i gadw eu hannibyniaeth. Bu ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau integredig i wella darpariaeth effeithiol.

Mae diogelu'n un o'r prif flaenoriaethau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan gynnwys uno diogelu i blant ac oedolion dan un pennaeth gwasanaeth. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (BDPCT) a Bwrdd Diogelu Lleol i oedolion ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Er ei fod ar gam cynnar, bydd hyn yn hybu arferion diogelu mwy cyson ar draws Cwm Taf yn ogystal â rhannu'r arbenigedd a ddatblygwyd gan reolwyr ac ymarferwyr yn y maes heriol hwn.

Oedolion

Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill ac yn gweithio'n ddiwyd tuag at ddarparu gwasanaethau integredig a chynyddu cydweithrediad, yn enwedig gyda'r adran iechyd. Ceir tystiolaeth o hyn drwy agoriad Parc Iechyd Kier Hardie (PIKH) a reolir gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf ond sy'n cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion sy'n hybu annibyniaeth a chefnogaeth yn y cartref.

Un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cyngor yw ei strategaeth Cartref am Oes ac mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth hefyd. Dechreuodd Cynllun Gofal Ychwanegol Tŷ Cwm dderbyn pobl ym mis Gorffennaf 2012. Neilltuyd 60 o fflatiau ac fe'i hagorwyd yn swyddogol ym mis Hydref. Mae hyn

wedi rhoi cyfle i lawer o bobl gael eu hadleoli o leoliadau cost uchel i lety byw'n annibynnol mwy priodol. Mae gwasanaethau dydd Tŷ Gwyn Newydd ar gyfer pobl hŷn wedi eu hadleoli i'r un safle. Mae hyn yn cynnig parhad ac amgylchedd cyfarwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yno, llawer ohonynt yn dioddef o ddementia.

Plant

Bu'n flwyddyn o atgyfnerthu yn y gwasanaethau i blant, gyda phwyslais ar ddeall patrymau a thueddiadau sy'n newid i blant a phobl ifanc. Mae nifer o fentrau yn cael eu datblygu a seiliwyd ar fentrau Llywodraeth Cymru a'r gydnabyddiaeth o'r manteision i'r cyngor o weithio gydag awdurdodau cyfagos. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau maethu a mabwysiadu a'r potensial i ddarparu gwasanaethau troseddau ieuenctid ar draws Merthyr Tudful a RhCT. Adroddir ar lwyddiant y mentrau hyn y flwyddyn nesaf.

Dylid cymeradwyo llwyddiant Canolfan i Deuluoedd Gellideg. Mae wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am ei gwaith gyda theuluoedd.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddinasyddion. Mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a newid sy'n eglur o ran eu bwriad ac yn rhwydd i bob cynulleidfau eu darllen. Er ei fod yn dathlu nifer o lwyddiannau, mae hefyd yn cydnabod yr angen penodol i ganolbwyntio ar fesur canlyniadau i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'n cydnabod yr heriau a wynebir gan yr awdurdod, yn enwedig effaith cyllidebau llai a chanlyniadau newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Pwysau ar gyllidebau a'r posibilrwydd o ddiffyg parhaus a chynyddol yn y gyllideb, yn enwedig o ystyried ffactorau allanol fel diwygio lles.
- Cynnydd mewn galw ar y ddarpariaeth o wasanaethau gan boblogaeth sy'n tyfu, yn enwedig o ran pobl hŷn.
- Effaith pwysau'r gaeaf ar y galw am wasanaethau a'r effaith ar gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig pan fo angen eglurder o ran cyfrifoldeb ariannol am leoliadau gofal cartref.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd datblygu a nodwyd. Mae'n parhau i fynd i'r afael â'r rhain yn ei gynlluniau busnes a datblygu. Gwnaed gwelliannau yn y gwasanaethau i blant o ran prydlondeb asesiadau, cynlluniau pontio a datblygu dull ataliol. Mae angen gwneud mwy o waith o ran gwasanaethau mabwysiadu a maethu ac mae trefniadau partneriaeth mwy hirdymor yn cael eu datblygu.

Mae sefydlu darpariaeth y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Ymgysylltodd y cyngor yn gadarnhaol ag AGGCC yn ystod y flwyddyn i drafod ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu a gynhaliwyd gan aelodau staff gwasanaethau cymdeithasol mewn ysgolion a meithrinfeydd ledled y fwrdeistref. Hyfforddwyd dros 400 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn.
- Canolfan i Deuluoedd Gellideg, lle mae ansawdd y gwasanaeth wedi cael ei gydnabod yn annibynnol gan ddyfarniad y Sefydliad Safonau Prydeinig, yn ogystal â nod barcut 9001 y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, y ganolfan gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r statws hwn.
- "Mwstwr Merthyr", gwefan i bobl ifanc leisio eu barn trwy gyfrwng gwefannau a rhwydweithio cymdeithasol a enwebwyd ar gyfer gwobr genedlaethol.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ogystal ag arolygiadau rheoleiddio a gynhaliwyd ar wasanaethau cofrestredig, gwnaeth AGGCC y gwaith canlynol ym Merthyr Tudful eleni:

- Ymweliad safle â Chanolfan i Deuluoedd Gellideg.
- Ymweliad safle â PIKH.
- Arsylwi cyfarfod y Pwyllgor Craffu.
- Ymweliad â'r Tîm Cymorth i Deuluoedd Integredig (TCDI)
- Cyfarfod â gofalwyr.
- Presenoldeb yn Fforwm Darparwyr Annibynnol Merthyr Tudful.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Grŵp Gweithredol Aml-asiantaeth (GGAA) a Diogelu.
- Cyfarfod â'r swyddog arweiniol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodir nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod. Rhoddir pwyslais ar gynnydd o ran y blaenoriaethau gwella a nodwyd yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr, gan gynnwys:

- Diogelu.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r adran iechyd.
- Sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae cysylltiadau'n amlwg rhwng y strategaeth, y bartneriaeth a'r cynlluniau corfforaethol cymunedol ac fe'u hadlewyrchir yn y Cynllun Integredig Sengl (CIS) a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2013. Mae'r CIS yn cynnwys amcanion strategol eglur ac yn ymgorffori'n briodol y nodau cynllunio allweddol a nodwyd mewn cynlluniau eraill fel y Strategaeth Iechyd a Lles a'r Cynllun Partneriaeth Plant.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo, trwy ei Strategaeth "Cartref am Oes i bobl hŷn Merthyr Tudful" (2006 – 2020), i weithio tuag at ddarparu gwasanaethau sy'n hybu annibyniaeth.

Mae PIKH yn enghraifft dda o sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Roedd y gwasanaeth newydd hwn yn rhan o raglen AGGCC o ymweliadau safle yn ystod y flwyddyn i ystyried i ba raddau y mae integreiddio a chyd-leoli yn cefnogi gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau mewn un man. Dangosodd trafodaethau gydag uwch reolwyr yn yr adran iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol bod y syniad gwreiddiol o ddod â holl aelodau staff y gwasanaethau i oedolion o'r gwasanaethau cymdeithasol i lety PIKH wedi'i newid i ddim ond dod â'r agweddau galluogi yno. Er bod uwch reolwyr gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i weithio ym mhrif swyddfeydd y cyngor, mae rhai rheolwyr canolig wedi eu lleoli ar y safle gyda rheolwyr iechyd sydd â swyddogaethau tebyg. Mae cynrychiolwyr sefydliadau trydydd sector, fel Age Concern, wrth ymyl. Mae hyn yn hybu cydweithredu agos ar draws ddisgyblaethau.

Mae'r cyngor yn eglur am fwriadau gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol yn y dyfodol. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, nododd y cyfarwyddwr yr angen i ysgogi'r farchnad darparwyr trwy gontractau a chomisiynu. Er bod gwaith yn parhau i gael ei wneud i gefnogi'r bwriad hwn, mae angen gwneud mwy i symud yr agenda hon yn ei blaen.

Plant

Mae'r cyngor wedi cynyddu ei wariant o £1 filiwn i £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gryfhau gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad i weledigaeth strategol y cyngor ar fodolau gwasanaeth ymyrraeth gynnar. Canolfan i Deuluoedd Gellideg ar gyrion tref Merthyr Tudful yw canolfan yr adran ar gyfer ymyraethau i blant. Mae'n darparu nifer o wasanaethau gan

gynnwys gwaith cyswllt ac allgymorth yn ogystal â nifer o raglenni cymorth penodol i deuluoedd. Mae'r ganolfan yn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid trwy holiaduron i deuluoedd. Mae adborth gan bobl a gynorthwyr yn gadarnhaol a chydabuwyd ansawdd y gwasanaeth yn annibynnol gan ddyfarniad y Sefydliad Safonau Prydeinig a nod barcut 9001 y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, y ganolfan gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r statws hwn. Canfu ymweliad â'r ganolfan gan yr arolygiaeth grŵp o aelodau staff proffesiynol ag arweinyddiaeth sefydlog iawn a oedd yn ymroddedig ac yn gweithio'n dda fel tîm. Dywedodd aelodau staff a oedd yn gweithio yno y cefnogir y gwasanaeth yn dda gan uwch reolwyr sydd â gwybodaeth fanwl am y gwasanaeth, hyd a lled ei ddarpariaeth gyfredol, a ble mae angen iddo fod yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos arweinyddiaeth gref, wedi ei dosbarthu yn y gwasanaethau i blant.

Mae'r TCDI yn parhau i weithio gyda nifer fechan o deuluoedd yn y fwrdeistref ac fe'i darperir ar y cyd â RhCT. Er bod hwn yn wasanaeth gwerthfawr, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau ei ddyfodol yn yr hirdymor, yn enwedig os bydd cyllid grant yn dod i ben. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd canlyniad yr adolygiad yn helpu i lunio'r penderfyniad ar ei ddyfodol.

Datblygwyd y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd ac mae'n cael effaith gadarnhaol ym Merthyr Tudful. Adroddir bod 18% (792 o blant) o'r holl blant dan bedair oed yn elwa o ryw fath o wasanaethau, sy'n golygu mai dyma'r cyngor trydydd uchaf yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae arolygwyr rheoleiddio AGGCC wedi canfod bod gwasanaethau i rai dan wyth oed yn y fwrdeistref yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod y polisi cyfredol yn adran gynllunio'r fwrdeistref yn atal twf y ddarpariaeth gwarchod plant oherwydd y cyfyngiadau ar nifer y lleoedd a ganiateir mewn lleoliadau yn y cartref. Mae'n bosibl y gallai hyn effeithio ar ddarpariaeth cost isel. Gellid cysylltu rhai o'r lleoliadau hyn â Dechrau'n Deg hefyd.

Mae'r adran yn awyddus i archwilio ffyrdd newydd o fod yn greadigol ac yn arloesol. Mae aelodau staff y gwaith cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) ar hyn o bryd i ddatblygu ac arbrofi fframwaith ar gyfer hunanwerthuso, a nodir fel un o flaenoriaethau'r cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Meysydd o gynnydd

- Nodwyd cynnydd o ran moderneiddio a chydweithredu ag eraill drwy'r gwaith yn PIKH.
- Canolfan i Deuluoedd Gellideg yn sicrhau dyfarniad y Sefydliad Safonau Prydeinig a nod barcut 9001 y Sefydliad Safonau Rhyngwladol.

Meysydd i'w gwella

- Yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad o'r TCDI, bydd angen i'r cyngor ystyried y ffordd orau i TCDI wneud y cyfraniad mwyaf posibl i gynorthwyo teuluoedd yn y fwrdeistref.
- Adolygu polisïau cynllunio o ran lleoliadau gofal dydd i blant dan wyth oed.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae mynediad at y tîm ymateb cychwynnol yn ddidrafferth ac yn cynnig cymorth ymarferol yn gyflym rhag colli annibyniaeth. Mae strwythur y tîm yn golygu y gall aelodau staff ddechrau asesu cryfderau ac anghenion yn brydlon, hyd yn oed os oes angen asesiad unedig hefyd ar gyfer gofal mwy hirdymor.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu bod yn dameidiog a cheir rhai bylchau hefyd. Byddai trafodaeth bellach ar ymateb strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i'r ddarpariaeth o wasanaethau i bobl hŷn â dementia yn helpu i wneud hyn yn glir i aelodau staff sy'n gweithio ar lefel weithredol. Byddai data perfformiad ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y 18 mis diwethaf yn helpu i werthuso llwyddiant a chynnydd y gwasanaeth.

Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gwella'n sylweddol eleni a cheir cyfartaledd o un lleoliad y mis ar hyn o bryd. Arweiniodd effaith pwysau'r gaeaf at gynnydd i nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ail a thrydydd chwarter y llynedd. Er bod dulliau ar waith i ymdrin â chynnydd o'r fath, mae angen gwneud mwy o waith gyda'r bwrdd iechyd lleol ynglŷn â nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau i sicrhau nad oes oedi diangen wrth ryddhau o'r ysbyty yn y dyfodol.

Mae adolygiadau o gynlluniau gofal wedi gostwng rhyw fymryn ond mae hyn yn dal i fod o fewn cyfartaledd Cymru. Rhagwelwyd y byddai'r tangyrhaeddiad o ran adolygiadau a nodwyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi cael ei wella o ganlyniad i benodiad swyddog adolygu penodedig. Mae hyn wedi digwydd.

Mae cyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn parhau. Adolygwyd yr holl gynlluniau eleni yn rhan o'r trosglwyddiad o'r ganolfan ddydd i'r safle newydd yn y parc iechyd. Mae cynlluniau gofal bellach yn adlewyrchu cofnod cyfannol o'r cymorth a ddarperir.

Plant

Eleni, mae llai o blant yn derbyn gofal, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o fwy o blant mewn angen a bu cynnydd i nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ym Merthyr Tudful.

Mae tueddiadau data perfformiad yn dangos bod gwasanaethau drws ffrynt wedi gwella gan ddangos bod mwy o asesiadau cychwynnol wedi'u cynnal yn unol ag amserlenni statudol. Mae hyn wedi codi'n sylweddol ac yn unol â chyfartaledd Cymru erbyn hyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd llai o asesiadau cychwynnol gan weithiwr cymdeithasol nag yn y blynyddoedd blaenorol ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r cyngor yn parhau i fynd i'r afael ag ef. Mae'r cyngor yn ystyried symud tuag asesu ar sail y teulu cyfan yn y dyfodol a gallai hyn ryddhau adnoddau.

Mae prydlondeb y rhan fwyaf o asesiadau craidd yn dda ac mae mwy'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, pan gymerwyd fwy na 35 diwrnod i gwblhau asesiadau, roedd yr amser cyfartalog yn hirach. Dywed y cyngor bod hyn yn rhannol oherwydd pwysau ychwanegol a wynebier gan y gwasanaethau cymdeithasol i fodloni'r amserlenni newydd a gyflwynwyd ar gyfer gwaith llys.

Gwneir penderfyniadau ar atgyfeiriadau o fewn un diwrnod gwaith ac roedd mwy na chwarter yr atgyfeiriadau nad aethant ymlaen i asesiadau cychwynnol. Mae'r gyfradd ail-atgyfeirio yn y gwasanaethau i blant yn dangos yr un patrymau â chynghorau eraill tebyg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn monitro hyn gan fod lefel yr ail-atgyfeiriadau wedi cynyddu er bod nifer yr asesiadau cychwynnol wedi gostwng. Mae'r cyngor yn awgrymu y gallai'r cynnydd hwn fod yn gysylltiedig â chysylltiadau lluosog ar gyfer yr un materion yn cael eu cofnodi fel ail-atgyfeiriadau.

Mae'r awdurdod wedi gweithio'n galed i wella dangosyddion perfformiad allweddol ac mae'r holl blant ar y gofrestr amddiffyn plant a'r holl blant syn derbyn gofal (ac eithrio dau blentyn) wedi eu neilltuo i weithiwr cymdeithasol cymwysedig. Hefyd, bu cynnydd i nifer y plant mewn angen y neilltuwyd gweithiwr cymdeithasol ar eu cyfer. Mae hyn yn awgrymu bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol yn dilyn sgrinio cychwynnol. Un o fanteision gwasanaethu ardal ddaearyddol fechan drwy weithlu sefydlog yw'r defnydd o wybodaeth leol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn ymwybodol o blant a'u teuluoedd cyn iddynt ddechrau derbyn gofal ac mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gydag ail genhedlaeth yr un teuluoedd yn aml.

Meysydd o gynnydd

- Gwelliant i amseroedd ymateb a pherfformiad o ran gwasanaethau drws ffrynt ar gyfer plant.
- Mae gwaith y tîm ymateb cychwynnol yn y gwasanaethau i oedolion yn darparu cymorth addas ac ymarferol i gynnal neu helpu i sicrhau byw'n annibynnol.
- Gwelliannau i ddull ac ansawdd cynllunio gofal ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen mwy o eglurder gyda Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf o ran nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau i sicrhau rhyddhau prydlon o'r ysbyty.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Cyfanswm y gwariant ar y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yw £19.6 miliwn sy'n sylweddol is nag awdurdodau tebyg. Mae ei hanner yn cael ei wario ar oedolion hŷn. Mae'r cyngor yn parhau i hybu agenda gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn y gymuned, ac o ystyried ei faint, mae gan Ferthyr Tudful ystod eang o wasanaethau ar gael i fodloni anghenion pobl yn dda er mwyn iddynt allu byw yn annibynnol. Mae data perfformiad yn awgrymu bod cyfradd y bobl dros 65 oed sy'n derbyn cymorth yn y gymuned fesul mil o'r boblogaeth wedi gostwng ychydig y llynedd ond mae'n parhau i fod yn llawer uwch na'r cyfartaledd Cymru. Er hyn, mae mwy o bobl dros 65 oed yn derbyn gwasanaeth yn eu cartrefi. Er bod nifer y bobl sy'n derbyn cymorth mewn cartrefi gofal wedi cynyddu ychydig eleni, mae'r cyngor yn nodi bod hyn yn gysylltiedig â phroblemau yn ymwneud â lleoliadau nyrsio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd angen i'r awdurdod fonitro yn ofalus y posibilrwydd o fod yn agored ymateb i alw nad yw'r bwrdd iechyd yn ymdrin ag ef yn y dyfodol.

Mae'r staff sy'n rhan o'r Tîm Ymateb Cychwynnol ac Ail-alluogi yn frwd dros ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ystod ymweliad safle gan AGGCC, dangoswyd bod ganddynt wybodaeth fanwl am ddewisiadau pobl a sut i ymgysylltu â nhw. Mae gan weithwyr cymorth sy'n gweithio gyda'r therapyddion y sgiliau a'r hyfforddiant i ymdopi â dynameg teuluoedd, yn ogystal â phrofiad sylweddol o ysgogi pobl i geisio cyflawni'r amcanion a nodwyd ar eu cyfer.

Mae lefel y cyllid ar gyfer pobl dan 65 sydd ag anableddau corfforol wedi gostwng yn sylweddol, sy'n debyg i awdurdodau eraill cyfagos, ond mae gwariant wedi cynyddu yn y gwasanaethau anabledd dysgu. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer fechan o leoliadau cost uchel yn yr awdurdod. Mae nifer o'r bobl yn y lleoliadau hyn bellach wedi symud i'r cynllun gofal ychwanegol a dylai hyn arwain at newid yng nghydbwysedd y gwariant hwn yn y dyfodol.

Mae uwch swyddogion a chomisiynwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn hwyluso fforwm i ddarparwyr annibynnol sy'n cyfarfod yn rheolaidd â darparwyr lleol. Mae llawer yn dod i'r fforwm hwn o'r sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae ansawdd y gwasanaethau a gomisiynir i bobl hŷn ym Merthyr Tudful yn gymysg. Ceir nifer fechan o gartrefi gofal lle y mae pryderon ynglŷn ag ansefydlogrwydd o ran yr arweinwyr a'r rheolwyr. Mae statws rhai o'r gweithwyr o dramor a gyflogir mewn cartrefi gofal wedi bod yn broblem hefyd.

Mae protocol monitro perfformiad darparwyr wedi ei ddrafftio i fonitro gwelliannau parhaus y gwasanaethau. Mae'r protocol wedi ei seilio ar nodi materion sy'n peri pryder yn gynnar ac mae'n nodi camau monitro perfformiad darparwyr yn eglur. Mae'n cynnwys MAOG sy'n golygu y codir pryderon sy'n dod i'r amlwg gyda phartneriaid allanol, a cheir cam pellach pryd yr hysbysir uwch swyddogion am bryderon. Mae arolygwyr rheoleiddio'n nodi bod y grŵp yn gweithio'n dda o ran nodi lleoliadau lle mae achos i bryderu. Mae cyfathrebu parhaus rhwng yr holl bartneriaid yn bwysig er mwyn sicrhau bod negeseuon i ddarparwyr yn gyson pan fo pryderon neu berfformiad gwael wedi eu nodi a chatau gorfodi'n cael eu hystyried.

Mae cartrefi gofal y cyngor ei hun yn dda. Bydd AGGCC yn gweithio'n agos gyda'r cyngor ar ddau ddatblygiad newydd y bydd yn ofynnol eu cofrestru. Mae arolygwyr rheoleiddio'n nodi bod y gwasanaethau i oedolion iau yn foddhaol ac ystyrir y ddarpariaeth gofal cartref mewnol yn wasanaeth a weithredir yn dda gydag arweinyddiaeth gref.

Plant

Mae'r agenda sefydlogrwydd yn parhau i fod yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau i blant ym Merthyr Tudful, sy'n gosod rhai heriau i'r awdurdod. Mae maint yr awdurdod yn golygu bod yn rhaid iddo ystyried gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant sydd angen lefelau sylweddol o gymorth na ellir eu darparu gan eu teuluoedd eu hunain nac yn lleol.

Y cynllun hirdymor yw i'r gwasanaethau maethu a mabwysiadu gydweithio'n rhanbarthol a bydd hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ogystal â bod yn fwy cynaliadwy. Yn y cyfamser, fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod barhau i fodloni ei hun ei fod yn darparu gwasanaeth cadarn sy'n bodloni anghenion y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal.

Mae arolygiadau rheoleiddio wedi eu cynnal ar gyfer y gwasanaethau maethu a mabwysiadu yn ystod y flwyddyn galendr hon. Roedd yr adroddiad ar y gwasanaethau maethu yn nodi cyfleoedd hyfforddi da i staff a gofalwyr maeth, yn ogystal â chynnwys gofalwyr a phlant maeth mewn digwyddiadau ymgynghori. Er hyn, roedd hysbysiadau cydymffurfio wedi eu cyflwyno ynglŷn â rhai agweddau ar arweinyddiaeth ac adolygiadau gofalwyr.

Mae'r cyngor yn cydnabod ei bod wedi bod yn anodd recriwtio gan mai poblogaeth gymharol fach sy'n sail i hynny, er bod mwy o ofalwyr maeth wedi eu recriwtio. O ganlyniad, mae dibyniaeth helaeth ar y defnydd o Asiantaethau Maethu Annibynnol ac mae bron i hanner y plant sy'n cael eu maethu yn cael eu lleoli gyda theuluoedd y tu allan i'r fwrdeistref. Yn ogystal â bod hyn yn sylweddol ddrutach (mae'r gwariant blyneddol ar blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon), mae hefyd yn cael effaith ar y plant eu hunain. Bu gwelliant o ran

nifer y newidiwyd lleoliadau ysgol i blant sy'n derbyn gofal, ac mae hyn yn debyg i awdurdodau eraill cyfagos. Er bod pwyslais ar leoli plant yn lleol pan fo hynny'n briodol, nid yw hynny'n bosibl bob tro. Ym Merthyr Tudful, cydnabyddir bod canfod lleoliad sy'n briodol i blentyn weithiau'n golygu bod y plentyn yn gorfod newid ysgol.

Roedd y gwasanaeth mabwysiadu yn destun arolygiad yn ddiweddar, ac er iddo gael ei gynnal yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, roedd yn ystyried perfformiad dros gyfnod y tair blynedd diwethaf. Canfu bod cysylltiadau da â'r timau gofal plant a bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant. Roedd proses gwneud penderfyniadau gadarn wedi ei sefydlu i ymdrin â'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â phenderfyniadau "dylid eu lleoli". Nodwyd bylchau yn y broses ar gyfer rheoli cwynion a chyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfiaid.

Cyhoeddwyd adroddiad ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc gan Estyn ym mis Tachwedd 2012. Daeth i'r casgliad nad oedd gwasanaethau addysg y cyngor "yn ddigon da", gan nodi bod y safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol yn anfodddhaol. O ganlyniad, mae Bwrdd Adfer Annibynnol wedi ei sefydlu i oruchwylio gwelliannau. Hyd yn hyn, mae tueddiad perfformiad o safbwynt cyrhaeddiad addysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn wael ac mae'n is nag yr oedd y llynedd; ond mae cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 3 yn uwch ac mae'n debyg i awdurdodau eraill. Roedd gan bob un ond un plentyn, allan o 82 o blant, gynghorwyr personol ond roedd y ffigyrau ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn is na chyfartaledd Cymru.

Roedd adroddiad arolygu gan Estyn yn cydnabod llwyddiant yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu a gynhaliwyd gan staff y gwasanaethau cymdeithasol mewn ysgolion a meithrinfeydd ledled y fwrdeistref, gan nodi bod 'trefniadau'r awdurdod ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder, ac maent yn cynnwys rhaglen hyfforddi drylwyr. Hyfforddwyd dros 400 o staff yn ystod y flwyddyn.

Mae'r polisi pontio wedi ei adolygu ac mae'r awdurdod yn nodi ei fod yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod egwyddorion pontio wedi eu hymsefydlu'n llawn mewn arfer ymarferwyr. Mae cynllun amcanestyniad pum mlynedd ar gyfer plant ag anabledd dysgu a rhai sy'n gadael gofal.

Meysydd o gynnydd

- MAOG o ran gweithio'n agos gyda phartneriaid a rheoleiddwyr i nodi a mynd i'r afael ag arfer gwael yn y ddarpariaeth o wasanaethau lleol i oedolion.
- Yr hyfforddiant a gynhaliwyd mewn sefydliadau addysgol ledled y fwrdeistref i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â diogelu plant.
- Adolygu'r polisi pontio a gwaith ychwanegol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y cyfnod pontio.

Meysydd i'w gwella

- Cynnydd parhaus yn y gwasanaethau mabwysiadu a maethu.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae'r gwasanaeth ail-alluogi yn gadarnhaol iawn. Mae'r tîm yn ymgysylltu'n dda gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr er mwyn cadw neu adfer annibyniaeth. Anogir defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i osod eu hamcanion eu hunain ac i nodi a yw'r canlyniadau wedi eu bodloni. Er hyn, nid yw'n amlwg i ba raddau y mae'r cyngor yn dadansoddi canlyniadau ail-alluogi. Er y nodwyd bod mwy o bobl yn terfynu'r gwasanaeth ar ôl chwe wythnos nag sy'n mynd ymlaen i dderbyn gwasanaeth mwy hirdymor, nid oedd unrhyw ddadansoddiad manwl ar gael i gadarnhau hyn.

Mae gan fwy o bobl reolaeth dros y modd y maent yn byw eu bywydau ym Merthyr Tudful. Mae hyn oherwydd bod y defnydd o daliadau uniongyrchol yn parhau i gael ei hybu'n weithredol er mwyn galluogi pobl i wneud dewisiadau llawn, a'u hannog i reoli'r cymorth personol y maent yn ei dderbyn. Mae nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn yr awdurdod wedi dyblu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae'r cyngor yn cydnabod swyddogaeth hanfodol gofalwyr a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'r gymuned leol. Lansiwyd strategaeth newydd ar gyfer gofalwyr, gan ddefnyddio dull aml-asiantaeth, yn ystod haf 2012. Y weledigaeth yw y bydd gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n gyffredinol fel bod yn hanfodol ar gyfer sicrhau teuluoedd cryf a chymunedau cadarn. Bydd hyn yn mynd ran o'r ffordd i roi sylw i ofynion y Mesur Gofalwyr i wella eu bywydau a sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau priodol a bod gwybodaeth ar gael ar eu cyfer. Mae rhwydwaith gofalwyr fywiog yn bodoli ac mae swyddog datblygu gofalwyr wedi ei benodi i gefnogi hyn. Cynigiwyd asesiad i nifer sylweddol o ofalwyr ac mae nifer y gofalwyr sydd wedi derbyn y cynnig hwn yn uwch eleni, ond mae gofalwyr sy'n derbyn gwasanaeth yn parhau i fod yn her i'r awdurdod. Er mwyn deall hyn, mae'r cyngor yn gwneud hwn yn faes i roi mwy o sylw iddo.

Yn gorfforaethol, mae'r cyngor yn blaenoriaethu diogelu plant ac oedolion ac mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran defnyddio dull integredig gan gynnwys cyfuno diogelu plant ac oedolion o dan un pennaeth gwasanaeth. Mae lefel yr atgyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion sy'n agored i niwed bron wedi dyblu yn ystod y flwyddyn (116 – 203) ac mae'r awdurdod yn ystyried hyn yn dueddiad cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a nodi cam-drin. Bydd diogelu'n parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac mae hyfforddiant wedi ei gynllunio ar gyfer yr

holl aelodau etholedig. Mae'r polisi hyfforddiant sefydlu corfforaethol yn pwysleisio bod diogelu yn gyfrifoldeb i bob gweithiwr.

Plant

Mae'r adran wedi wynebu rhai heriau yn y gwasanaethau i blant oherwydd prinder staff ac o ganlyniad i hyn bu dibyniaeth ar nifer o staff asiantaeth, ond mae hyn wedi gwella bellach.

Mae angen gwneud mwy o waith i wella ymweliadau statudol yn y sector plant sy'n derbyn gofal gan fod y ffigurau'n dangos bod perfformiad wedi dirywio. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen rhoi mwy o sylw i weithio gyda phlant mewn angen yn ystod y flwyddyn i ddod, ac i ddatblygu gwasanaethau ataliol yn benodol. Dylai hyn ddarparu dull mwy cyfannol ond gyda phwyslais ar fodloni anghenion teuluoedd, ac atal plant rhag symud drwy'r system gan fod angen ymyraethau mwy costus.

Cynhelir cynadleddau amddiffyn plant yn brydlon yn ogystal â chyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol. Er hyn, mae perfformiad yn wael o ran adolygiadau plant mewn angen.

Darparwyd gwasanaeth i'r holl ofalwyr ifanc ym Merthyr Tudful yr aseswyd bod angen cymorth arnynt.

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hanfodol o ran darparu gwasanaethau i blant ifanc anabl er mwyn iddynt gael defnyddio darpariaeth meithrinfa cyn oed ysgol prif ffrwd, a chymorth i ofalwyr ifanc yn y fwrdeistref. Cafwyd trafodaethau gyda phartneriaid iechyd ynglŷn ag anghenion plant ag anableddau er mwyn ceisio darparu gwasanaeth gwahanol a gwell trwy gyflwyno model llwybr gofal.

Mae'r cyngor wedi edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth ar y cyd ag awdurdod cyfagos ond ychydig iawn o gynnydd a wnaed ynglŷn â hyn hyd yma.

Defnyddir Twitter a Facebook yn eang i gyfathrebu yn y fwrdeistref. Lansiwyd "Mwstwr Merthyr" i bobl iau (12 - 25 mlwydd oed) ym mis Mehefin 2012. Gwefan yw hon i bobl ifanc leisio eu barn trwy gyfrwng gwefannau a rhwydweithio cymdeithasol. Rheolir y wefan gan bobl ifanc i bobl ifanc ac mae'n cynnwys cyngor, gwybodaeth a chanllawiau a newyddion lleol. Mae'n gweithredu o fewn y Deg Hawl (hawliau pobl ifanc fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru). Roedd Gwasanaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Pobl Ifanc Merthyr Tudful ar flaen y gad wrth ddatblygu'r gwasanaeth ac mae eisoes wedi ei enwebu ar gyfer dyfarniad cenedlaethol.

Meysydd o gynnydd

- Cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol.
- Ymateb cydlynol gan y cyngor i ddiogelu plant ac oedolion, mewn un tîm.
- Lansiad y strategaeth gofawyr newydd.

Meysydd i'w gwella

- Pwyslais parhaus ar blant mewn angen a pharhau i ddatblygu'r agenda atal.
- Gwell perfformiad o ran cynnal ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal.
- Gwaith parhaus gyda gofawyr i ddeall pam bod diffyg manteisio ar wasanaethau.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Cytunwyd ar gynllun corfforaethol y cyngor yn gynnar yn 2013. Mae un o'r meysydd blaenoriaeth yn y cynllun ar gyfer 2013 tan 2017 yn cynnwys bodloni anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae cynllun unigol integredig yn sail i hwn.

Mae gan y cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig, ond mae Adroddiad Gwella Blyneddol Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod gwaith sylweddol i'w wneud i sicrhau bod y cynllun, strategaeth rheoli asedau a strategaeth gweithlu'r cyngor yn cyd-fynd â'i gilydd os ydynt am gael eu defnyddio'n llawn i lywio blaenoriaethau'r cyngor a chynorthwyo i'w cyflawni. Mae diffyg cyllid dangosol yn y gyllideb o £4.5 miliwn dros y pedair blynedd nesaf ar sail trefniadaeth bresennol y gwasanaethau.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cydnabod yr heriau a fydd yn dod yn sgil cyflwyno deddfwriaeth megis Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'r effaith y bydd y diwygiadau lles yn ei chael ar y cyngor. Hefyd, mae "Ailgyssylltu â Gofal" wedi cyflwyno cyfrifoldebau newydd ar gyfer pobl ifanc a arferai dderbyn gofal rhwng 21 a 24 mlwydd oed er mwyn eu cefnogi mewn addysg a hyfforddiant. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar gyllid y cyngor.

Yn y gwasanaethau i oedolion, bydd angen rheoli achosion o oedi wrth ryddhau o'r ysbyty yn ofalus, er mwyn sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r gyllideb gyffredinol ar gyfer gofal preswyl.

Mae plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor wedi gosod galw uchel ar wasanaethau, ac o ganlyniad i leoliadau drud, bydd y gorwariant sydd wedi ei ragamcanu yn creu diffyg cyffredinol yng nghyllideb y gwasanaethau cymdeithasol eleni. Er bod y cyngor yn edrych ar brosiectau cydweithredu rhanbarthol hirdymor, bydd gwasanaethau maethu a mabwysiadu yn y tymor byr yn parhau i fod yn faes y bydd angen i'r cyngor roi sylw iddo.

Mae cyngor Merthyr Tydfil yn ymroddedig i ddatblygu ei weithwyr cymdeithasol ei hun ac mae wyth o bobl ar gyrsiau gwaith cymdeithasol ar hyn o bryd, sy'n ganmoladwy o ystyried maint adran y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r staff yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant da ac mae 92% o'r staff gofal cartref yn gymwysedig sy'n rhagori'n helaeth ar lefelau a ddisgwylir gan y rheoliadau. Mae 89% o'r holl staff gofal cartref wedi cymhwyso i'r lefel ddisgwyliedig.

Meysydd o gynnydd

- Gwytnwch o ran ymdrin â chyfyngiadau ariannol.
- Ymrwymiad i ddatblygu staff gwaith cymdeithasol a gweithlu cymwysedig yn gyffredinol yn y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol.

Meysydd i'w gwella

- Cynllunio ariannol a rheoli cyllidebau yn y dyfodol, mewn amgylchedd heriol.

Darparu Cyfeiriad:

Mae'r cyngor yn amlwg wedi ystyried cyfeiriad strategol y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y dyfodol, sydd wedi ei seilio ar lawer o weithio ar y cyd a'i agwedd tuag at waith partneriaeth. Mae hyn wedi cefnogi gwasanaethau i bobl yn eu cymunedau eu hunain. Mae cyfleusterau a rennir yn fwy cost effeithiol ac yn meithrin cydweithredu rhwng meysydd gwasanaeth, fel y rhai ym Mharc lechyd Keir Hardy, sy'n cynnig profiad mwy cyfannol i'r cyhoedd, yn ogystal â mynediad at amrywiaeth ehangach o wybodaeth a gwasanaethau i gefnogi annibyniaeth pobl, sy'n elfen allweddol o gyfeiriad strategol y cyngor.

Yn gyffredinol, ceir cefnogaeth gorfforaethol i waith y gwasanaethau cymdeithasol ym Merthyr Tydfil. Ceir gwaith craffu effeithiol. Roedd hyn yn amlwg pan oedd AGGCC yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor craffu wrth i aelodau herio uwch swyddogion yn effeithiol ynglŷn â'r modelau gofal newydd a gynigiwyd, yn ogystal ag archwilio gwybodaeth am berfformiad yn y gwasanaethau i blant. Er hyn cydnabyddir bod mwy o waith i'w wneud gydag aelodau'n gorfforaethol er mwyn deall a datblygu eu swyddogaethau'n llawn.

Nodir diogelu fel un o flaenoriaethau gwella a newid y cyngor, a cheir ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth bod diogelu yn fater i bawb yn y cyngor. Bydd gwybodaeth a hyfforddiant ar gael ar gyfer yr holl aelodau etholedig a'r staff, ac mae'r polisi hyfforddiant sefydlu corfforaethol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn egluro disgwyliadau a chyfrifoldebau unigolion o ran diogelu pobl a phlant sy'n agored i niwed.

Mae'r cyngor wedi sefydlu strwythur sy'n hybu arweinyddiaeth a chyfeiriad eglur trwy'r tîm o uwch reolwyr, cyfarfodydd cyfadrannol a chyfarfodydd tîm. Bychan yw'r tîm o uwch reolwyr ond maent yn cydweithio'n dda i ddarparu'r sefydlogrwydd

angenrheidiol er mwyn gallu parhau i symud yr agenda newid yn ei blaen. Mae gan bob aelod o'r tîm bortffolio eang sy'n golygu bod dibyniaeth sylweddol ar reolwyr unigol. Mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid ac mae'n awyddus i weithio gyda rheoleiddwyr i ymdrin â meysydd sy'n peri pryder neu ddatblygiadau a nodwyd. Mae'r cyngor wedi gosod tasg iddo'i hun o ganolbwyntio ar ganlyniadau yn y gwasanaethau i blant ac i oedolion, a fydd yn arwain at well canlyniadau ar gyfer y rhai hynny sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol Merthyr Tudful.

Meysydd o gynnydd

- Cynigion ar gyfer darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o ddiogelu i'r holl weithwyr a'r aelodau.

Meysydd i'w gwella

- Datblygu swyddogaeth yr aelodau yn barhaus o ran eu dealltwriaeth o'r gwasanaethau cymdeithasol.